Gwaith Coed yn y Blynyddoedd Cynnar

gan Pete Moorhouse

'GWAITH COED YW DYSGU GWEITHREDOL AR EI ORAU!'

Tina Bruce, CBE
Athro, Prifysgol Roehampton

'WRTH I BLANT YMWNEUD GYDA CHOED MAENT YN DYSGU SGILIAU BYDD YN RHOI'R GRYM IDDYNT SIAPIO'U BYD.'

Pete Moorhouse

Rhagair

"Mae gwaith coed yn boblogaidd ac yn ffynhonnell ffrwythlon o fwynhad a dysgu. Mae'n gymorth i ddatblygu dychymyg a chreadigrwydd plant, ynghyd â'u sgiliau ymarferol. Mae'r effaith yn un hir dymor.

I rai plant, roedd gwaith coed yn ffordd o ddymchwel rhwystrau i ddysgu.

Mae brwdfrydedd Pete yn amlwg, fel y mae ei ymrwymiad i annog meddwl creadigol ymhlith plant. Wrth weithio ochr yn ochr â Pete rwyf wedi gweld plant yn dysgu ar lefel ddofn.

Rydw i'n eich annog i gyflwyno gwaith coed i'ch lleoliad, ac rwy'n siŵr y gwnewch chi ganfod y llyfr hwn yn adnodd amhrisiadwy."

Rachel Edwards
Pennaeth, Ysgol a Chanolfan Blant Ysgol y Parc

Gwaith coed - pam?

Mae hyn yn gyfnod cyffrous. Ar hyn o bryd mae yna ymchwydd o ddiddordeb mewn darpariaeth gwaith coed yn addysg gynnar yng Nghymru. Mewn nifer cynyddol o ddarpariaethau gallwn glywed tapio a tharo morthwylion, a sŵn pren yn cael ei dorri. Mae'r un peth yn digwydd ym mhedwar ban y byd.

Mae'r cynnydd yn narpariaeth gwaith coed i'w groesawu, ac mae'n newyddion da i blant - maent wir yn ei fwynhau, fel gall unrhyw un dystio ar weld plant ifanc wedi ymgolli yn eu gwaith, yn canolbwyntio wrth ddefnyddio offer llaw. Mae gwaith coed o fudd mawr i ddysgu a datblygiad plant ar draws yr holl feysydd dysgu, a gwelwn blant yn ymrwymo a chanolbwyntio am gyfnodau estynedig o amser. Mae'r ymarferwyr sydd yn ymweld â'r darpariaethau o hyd yn sylwi ar allu'r plant i ganolbwyntio'n ddwfn, ac mae'n syndod bellach iddyn nhw weld yr un plant yn dal i ganolbwyntio ar eu creadigaethau awr neu ddwy yn ddiweddarach. Nid yw'n anghyffredin i blant dreulio'r bore cyfan wrth y fainc gwaith coed.

Yn rhannol, daw'r adnewyddiad o ddiddordeb yng ngwaith coed fel ymateb i fyd sy'n gynyddol ddigidol. Gwelwn genhedlaeth newydd o blant yn dysgu sut i ddefnyddio ffonau symudol ac i pads cyn iddynt ddysgu sut i gerdded. Gellir gweld gwaith coed fel cyfrwng rhyfeddol sy'n galluogi plant i archwilio'r byd ffisegol gydag offer a deunyddiau go iawn at bwrpas. Mae'n bwysicach nag erioed bod gan y genhedlaeth newydd yr allu i feddwl yn greadigol a datblygu sgiliau datrys problemau. Yn fyd-eang bu cynnydd mewn 'gwneud' o ganlyniad i fudiad y gwneuthurwyr, gyda 'gofodau gwneud' a stiwdios arbrofi mewn dinasoedd ledled y byd yn darparu mannau lle gall plant fod yn chwilfrydig ac yn ddyfeisgar. Gall gwaith coed ddarparu sylfaen ar gyfer llawer o'r archwiliad hwn.

Mae plant wedi'u hamgylchynu gan dechnoleg gymhleth, ond mae hyn wedi cyfyngu ar eu profiad o dechnoleg sylfaenol, gyda llai o gyfleoedd i wylio a dysgu ac i ddeall prosesau. Heddiw mae'n bosib yr aiff plant drwy eu haddysg gyfan heb ddefnyddio offer. Tros y blynyddoedd diwethaf mae gostyngiad amlwg wedi bod yn y nifer o ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n cynnig gwaith coed.

Mae'r hyder i weithio gydag offer yn darparu set o sgiliau am oes. Bydd angen sgiliau ymarferol ar nifer o blant at waith y dyfodol, ac mae'n bosib mai gwaith coed yn y blynyddoedd cynnar bydd yr unig brofiad y caiff plant o weithio gydag offer. Yn ffodus, mae gweithio gydag offer yn gadael ôl dwfn - felly hyd yn oed os mai addysg y blynyddoedd cynnar yw eu hunig brofiad o weithio gyda choed, bydd yn gadael effaith hir dymor ar y plentyn.

Mae gwaith coed yn ymwneud â'r dwylo, y galon a'r ymennydd. Yn wir, mae yna rywbeth arbennig iawn am waith coed. Mae e mor wahanol i weithgareddau eraill. Arogl a theimlad pren, defnyddio offer go iawn, gweithio gyda deunydd naturiol; synau morthwylio a thorri; y defnydd o gryfder a chydsymud; ymennydd y plant wedi eu llwyrfeddiannu wrth iddynt fynegi eu dychymyg a datrys problemau - gyda'i gilydd mae'r rhain yn swyno ac yn denu plant ifanc.

Mae gwaith coed yn caniatáu i blant ddatblygu eu dysgu ar ei cyflymder eu hunain, ac i ganfod heriau dros ei hunain. Unwaith iddynt feistroli sgiliau sylfaenol maent yn symud i archwilio pen agored - dyfeisio, archwilio posibiliadau a chreu pethau unigryw. Mae eu sgiliau dychmygol, meddwl yn greadigol a datrys problemau yn ffynnu wrth iddynt benderfynu ar eu gwaith.

Gobeithiaf y bydd y llyfr hwn yn eich ysbrydoli ac yn rhoi'r hyder i chi gyflwyno gwaith coed i'ch plant. Yma, rydw i'n canolbwyntio ar waith coed yn y Cyfnod Sylfaen, ond mae'r egwyddorion a'r dulliau yr un mor addas i bob un plentyn ysgol gynradd.

Cyd-destun Hanesyddol a Daearyddol

Mae nifer o wledydd y byd yn argymell gwneud gwaith coed gyda phlant ifanc. Mae gwaith coed yn iaith gyffredinol sy'n croesi ffiniau diwylliannol. Mae gwledydd gwahanol yn defnyddio offer gwahanol, ond yn ei hanfod yr un peth yw'r profiad, ac mae'n un sydd o ddiddordeb mawr i blant ifanc. Mae gan Gymru draddodiad cyfoethog o weithio gyda phren. Ers canrifoedd mae gweithio gydag offer wedi bod yn rhan o ddiwylliant Cymreig, o ffermio i grefftio, ac yn fwy diweddar, o fewn diwydiant.

Yng ngwledydd Sgandinafia mae gwaith coed yn rhan sefydledig o ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar. Yn Seland Newydd mae'r Weinyddiaeth Addysg yn enwi gwaith coed (Tarai rakau) fel gweithgaredd chwarae bwysig sydd yn cefnogi egwyddorion a llinynnau'r cwricwlwm Te Whāriki, ac mae gan nifer o ddarpariaethau cornel gwaith coed. Mae gwaith coed yn llai sefydledig o fewn gwledydd eraill, ond ynddynt mae nifer o ddarpariaethau unigol sydd wedi sefydlu gwaith coed yn llwyddiannus ers blynyddoedd, gydag enghreifftiau yn Siapan, Tsieina a'r Unol Daleithiau. Ar un adeg roedd gwaith coed yn sefydledig yng Nghymru, er iddo gael ei ddifa yn ystod yr 1980au a'r 90au o ganlyniad i bryderon ynglŷn ag iechyd a diogelwch, ond diolch i'r drefn mae ar gynnydd unwaith eto.

Mabwysiadwyd gwaith coed gan addysg Ewropeaidd yn ystod rhan olaf y 1800au, diolch i ddylanwad Friedrich Froebel, a welodd plant yn ddysgwyr cymwys a rhoddodd pwyslais ar 'ddysgu trwy wneud'. Cafodd ei syniadau gryn ddylanwad ar addysg sefydledig. Roedd gwaith coed yn ychwanegiad hwyr at 'alwedigaethau' Froebel. Dylanwadwyd system Sloyd yn Sgandinafia gan syniadau Froebel. Daw'r enw Sloyd o derm ar gyfer gwaith llaw creadigol. Mabwysiadwyd y system o fewn ysgolion y Ffindir gan Uno Cygnaeus yn 1865, o dan y gred bod gweithio gyda'r dwylo yn cefnogi datblygiad yr ymennydd ac yn rhoi fwy o berthnasedd i ddysgu. Yn 1872 cyflwynwyd

Sloyd i Sweden gan Otto Saloman o'r Ysgol Nåås, sef coleg hyfforddi athrawon byd-enwog a fynychwyd gan nifer o arloeswyr addysgiadol o Loegr. Sefydlwyd ysgolion meithrin a chynradd yn yr 1800au hwyr, ac roedd gwaith coed yn beth cyffredin ynddynt hyd at yr 1970au. Diddymwyd gwaith coed, mwy neu lai, fel pwnc ysgol yn ystod yr 1980au a 90au, o ganlyniad i bryderon ynglŷn â gweithgareddau 'peryglus' a'r goblygiadau cyfreithiol o'u haddysgu. O ganlyniad i'r agwedd osgoi risg a symudiad yn y cwricwlwm, rhoddodd ysgolion y gorau i addysgu sgiliau ymarferol, ac yn dilyn hyn, nid oes nifer o bobl ifanc dros y degawdau diwethaf wedi profi gweithio gydag offer o gwbl. Heddiw, mae agweddau tuag at risg yn newid i fod yn fwy cytbwys, a phwysleisir bod profi risg a heriau o dan amgylchiadau rheoledig yn rhan bwysig o ddatblygiad plentyn, gan mai dyma sut mae plant yn dysgu sut i gymryd penderfyniadau a gwneud dyfarniadau.

Cyfleoedd Cyfartal

Mewn grwpiau bach rydym yn cyflwyno'r offer sylfaenol i bob un plentyn, fel y bydd pob plentyn yn teimlo'n gyfforddus yn yr ardal gwaith coed, ac fel eu bod nhw'n medru gwneud penderfyniad deallus ynglŷn â pharhau gyda gwaith coed ai peidio. Petaem yn gofyn a fyddai ganddynt ddiddordeb yng ngwaith coed, yn fwy na thebyg, ac o ganlyniad i stereoteipio, mai bechgyn byddai'n dymuno gwneud. Ar ôl i ni gyflwyno'r offer i bawb mae'r un nifer o fechgyn a merched yn dewis cymryd rhan.

Mae gwaith coed yn ennyn chwilfrydedd plant, ac mae wedi bod yn arbennig o lwyddiannus gyda phlant o gefndiroedd mwy difreintiedig, sydd yn aml yn llai hyderus ac yn cael mwy o drafferth i ganolbwyntio. Yn aml, gwaith coed yw'r allwedd sy'n agor y drws i hunan-barch, hyder, dysgu a datblygu.

Dylid cynnig y cyfle i wneud gwaith coed i blant gydag anghenion ychwanegol ac anableddau. Yn amlwg bydd anghenion y plentyn unigol yn ffactor, ond gyda chynllunio gofalus a digonedd o gefnogaeth gan ymarferwyr, gall pob un plentyn gymryd rhan, ac elwa'n fawr o'r hyn sydd gan waith coed i'w gynnig.

Risg

Mae gwaith coed yn weithgaredd risg isel pan gaiff ei gyflwyno'n gywir, a phan roddir mesurau diogelwch sylfaenol mewn lle. Rydym wedi gwneud gwaith coed gyda phlant cyn-ysgol am nifer o flynyddoedd heb unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol.

Ar hyn o bryd rydym yn gweld symudiad byd-eang tuag at agwedd mwy cytbwys wrth ymdrin â risg. Yn y DU arweiniodd yr adolygiad "Common Sense, Common Safety" tuag at ddatblygiad cadarnhaol yn annog ysgolion a darpariaethau i weld risg yn beth positif yn hytrach na rhywbeth a ddylai gyfyngu ar brofiadau gwerthfawr. Derbyniwyd argymhellion yr adroddiad gan Lywodraeth Prydain yn 2010. Awgrymai'r adroddiad "symud o system asesu risg i system o asesu mantais y risg."

Yn 2012 cyhoeddwyd papur gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) gyda chyngor tebyg - 'nid dileu risg yw'r nod, ond pwyso a mesur y risgiau a'r buddion. Ni fydd plentyn yn dysgu am risg os caiff ei glustogi gan wlân cotwm.' Y farn gyfredol yw y dylai plant gael y cyfle i brofi ystod eang o weithgareddau, a dylai mesurau iechyd a diogelwch eu cynorthwyo i wneud hyn yn ddiogel, yn hytrach na'u rhwystro. Mae'n bwysig i blant ddysgu sut i ddeall a rheoli'r risgiau sy'n rhan o fywyd, ac i ymarferwyr defnyddio synnwyr cyffredin wrth asesu a rheoli'r risgiau sy'n rhan o unrhyw weithgaredd. Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â risg ar gael o Play Wales.

Y neges gyffredinol yw bod risg yn cynnig profiadau pwysig i blant ifanc, a bod profi risg mewn awyrgylch rheoledig yn cyfrannu at eu datblygiad, gan eu bod yn dysgu sut i hunan-reoli a gwneud penderfyniadau. Wrth gwrs, mae angen rhoi ystyriaeth ddwys i iechyd a diogelwch, ac mae yna ddolenni i ganllawiau iechyd a diogelwch ac asesiadau risg enghreifftiol yn yr adran adnoddau. Os oes gan rieni bryderon, gall noson agored fod yn gyfle da i egluro buddion gwaith coed - ac i gysuro rhieni bod diogelwch yn flaenoriaeth. Mae Estyn hefyd wedi datgan bydd arolygwyr yn trin arloesi mewn ffordd gadarnhaol pan fo darpariaethau ac ysgolion yn gweithredu mentrau er budd disgyblion.

Cynaladwyedd

Rydym yn byw mewn oes newidiol lle achosir problemau di-ri gan ansefydlogrwydd economaidd byd-eang, prinder adnoddau a newid hinsawdd. Mae gwaith coed yn gymorth i newid y feddylfryd 'defnyddio a gwaredu' trwy ddatblygu sgiliau dylunio, adeiladu ac adnewyddu.

Dylid defnyddio pren sydd wedi ei ailgylchu, ac os oes rhaid prynu pren o gwbl, prynwch o goedwigoedd a reolir mewn modd cyfrifol. Gellir defnyddio ac ailgylchu amryw o wrthrychau eraill, er enghraifft cyrc a thopiau boteli.

Agwedd bwysig arall o waith coed yw'r ffaith ei fod yn gymorth i blant deall o ble ddaw pren. Mae gweld harddwch coed a chael gwybod pa mor hir y cymerant i dyfu yn gymorth i addysgu plant am yr angen i werthfawrogi pren fel adnodd naturiol, ac i fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldeb i ofalu am ein hamgylchedd. Gall plannu coed gyda phlant ategu'r profiad hwn. Mae gwaith coed yn gymorth i ddatblygu sgiliau creadigol a beirniadol plant; sgiliau sydd o bwys cynyddol mewn byd sy'n newid mor gyflym.

“Mae gwaith coed yn gyfrwng sy’n caniatáu i blant fynegi eu hunain”

Dysgu a datblygu

Pan ddangosir sesiwn gwaith coed mae'n anhygoel i weld faint mae'r plant yn dysgu. Mae'n cwmpasu'r holl feysydd dysgu a datblygu'r Cyfnod Sylfaen, ac yn creu cysylltiadau rhwng y gwahanol agweddau o ddysg. Mae'n cefnogi'r syniadaeth gyfredol o sut mae plant yn dysgu orau, gan wneud defnydd o nodweddion mwyaf effeithiol addysgeg i greu plant hyderus, creadigol sy'n mwynhau dysgu. Gall gwaith coed fod yn ganolog i'r cwricwlwm, ac mae'n gwneud defnydd o'r pedwar egwyddor sy'n tanategu'r Cyfnod Sylfaen newydd.

Datblygiad Personol a Chymdeithasol a Lles

O'r tu allan fe welwn blant yn gweithio gyda'u dwylo, yn adeiladu modelau ac yn gweithio ar brosiectau, ond mae'r newid mwyaf yn digwydd tu mewn i feddwl y plentyn – mae datblygiad personol yn ganolog i waith coed. Mae gwaith coed yn fodd i adeiladu hunan-werth a hyder. Caiff plant eu grymuso wrth iddynt sylweddoli bod oedolion yn ymddiried ynddynt i drin yr offer. Maent yn llwyddo i gyflawni tasgau a welsant yn anodd i gychwyn, ac maent yn dyfalbarhau gyda thasgau heriol. Maent yn falch o'u sgiliau newydd a'r gwrthrychau maent wedi eu creu. Mae'r teimlad o gyflawniad yn hwb i'w hunan-hyder a hunan-barch. Mae gan blant ddyhead cynhenid i adeiladu ac i greu. Trwy greu medrant ddysgu sut mae pethau'n gweithio, a chanfod eu bod nhw'n medru effeithio'r byd o'u hamgylch. Arweinia hyn at agwedd rhagweithiol, a'r gred eu bod nhw'n medru siapio eu bywydau eu hunain. Mae gwaith coed yn annog annibyniaeth, ond ar ben hynny mae yna gyfleoedd i blant gydweithio, wrth iddynt gynorthwyo ei gilydd gyda thasgau, datrys problemau neu weithio ar brosiectau gyda'i gilydd.

Datblygiad Creadigol

Mae sgiliau beirniadol a chreadigol yn ganolog i'r dychymyg a sgiliau datrys problemau sydd eu hangen wrth i blant ddysgu sut i gymryd penderfyniadau, archwilio datrysiadau, arbrofi ac adlewyrchu ar eu gwaith eu hunain. Does yna ddim byd yn debyg i waith coed ar gyfer darparu cyfleoedd i blant datrys problemau a heriau. Gan fod plant yn medru creu beth bynnag maent yn dymuno ei greu, nhw hefyd sy'n gyfrifol am greu'r problemau byddant yn eu gwynebu; ond mae ganddynt y cymhelliant cynhenid i ddyfalbarhau ac i ddysgu o'u camgymeriadau.

Datblygiad Corfforol

Mae gwaith coed yn gyfle i blant ddatblygu'n gorfforol, trwy ddysgu sut i drin a rheoli offer yn ddiogel. Mae angen i blant fedru cydsymud llaw a llygad i wneud gwaith coed. Wrth i blant datblygu ystwythder, deheurwydd, sgiliau ystrywgar a chryfder cyhyrol, bydd ganddynt reolaeth gynyddol dros eu cyrff. Mae gwaith coed yn gwneud defnydd o sgiliau echddygol manwl (dal hoelen, sgriwio) a sgiliau echddygol bras (morthwylio, llifo). Mae yna wahanol symudiadau, fel gwthio/tynnu (llifo, ffeilio), troi (trin sgrewdreifar, drill, tyndro, feis), trosoli (morthwyl crafanc, tynnwr hoelen Japaneaidd) a rhwbio (papur tywod). Datblygir cydsymud llaw a llygad wrth forthwylio neu sgriwio nyten ar follten. Profir offer un llaw (sgriwdreifer, tyndro) ac offer dwylaw (drill llaw).

Mae defnyddio offer yn fodd i ddatblygu cryfder craidd plant, er enghraifft, morthwylio, troi sgriwdreifer neu lifo. Mae'r llawenydd ar wyneb blentyn ar ôl iddo dorri trwy ddarn o bren yn werth ei weld: cymysgedd o falchder a syndod ei fod wedi llwyddo i gwblhau'r dasg.

Mae gwaith coed yn rhan o'r holl feysydd dysgu

Cefnogir sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu wrth i blant trafod coed fel thema, neu wrth iddynt drafod eu gwaith a datrys problemau. Bydd cyflwyno offer a phrennau newydd yn ymestyn geirfa plant. Yn nhermau llythrennedd, gellid llunio syniadau ar bapur, a gwneud marciau ar y pren ei hun.

Mae yna ystod eang o lyfrau yn ymwneud â phren, a bydd y rhain yn cefnogi llythrennedd. Mae angen sgiliau mathemategol i wneud gwaith coed. Mae yna gyfleoedd i archwilio rhifedd a siâp, arwyneb a mesur. Mae gwaith coed yn gofyn am ddefnydd cysyniadau mathemategol fel paru, dosbarthu, cyfri, mesur, cyferbynnu, nodi maint a phwysau, cydbwyso ac adnabod siapau dau a thri dimensiwn. Gellir defnyddio ystod eang o offer mathemategol, er enghraifft ffon fesur, sgwaryn, lefel wirod ac ati. Mae gwaith coed yn medru ehangu dealltwriaeth plant o'r byd o'u cwmpas, sut mae'r pethau o'u hamgylch yn gweithio, yn ogystal â'u gwybodaeth wyddonol. Daw hyn drwy archwilio coed fel deunydd, coed fel cyd-destun neu'r offer ei hun. Byddent yn gweld nifer o gysyniadau gwyddonol ar waith, a chant gyfle i roi'r rhain ar waith eu hunain.

Gosod yr ardal gwaith coed

Nid oes yna un gosodiad penodol bydd yn gweithio i bawb, gan fod pob darpariaeth yn wahanol, ond byddai'n ddefnyddiol i ystyried y canlynol. Y peth cyntaf i'w wneud yw dewis gofod addas. Dewiswch ardal heb lawer o bethau ynddi i dynnu sylw'r plant, gan fod angen i blant ganolbwyntio wrth lifo neu forthwylio. Mae'n braf gweithio y tu allan, ond gall hwn fod yn anodd mewn tywydd oer gan nad yw gwaith coed yn ffordd dda o gadw'n gynnes, ac mae'n anodd symud yn rhwydd os ydych yn gwisgo haen ar ôl haen o ddillad. Mae gwaith coed yn addas ar gyfer gweithio y tu mewn, yng nghornel ystafell ddosbarth. Gosodwch bethau fel bod y plant a'r ardal gwaith coed dan oruchwyliaeth trwy'r adeg.

Mae mainc waith cryf a chadarn yn angenrheidiol. Rhaid rhoi pren mewn feis i'w dal yn dynn wrth ei lifo. Byddai'n ddefnyddiol i gael hen fwrdd yn fainc waith ychwanegol. Sicrhewch fod yna ddigon o le rhwng y plant wrth iddynt weithio. Gellir cadw offer mewn lle hygyrch, neu eu nôl nhw fel bod angen; heblaw am y llif. Mae angen i oedolyn oruchwylio'r plant bob tro y defnyddir y llif.

Pren

Mae pren Balsa yn ddeunydd addas i ddechrau ar waith coed. Os bydd plant yn dechrau gyda phrennau meddal, mae'n eithaf tebygol y byddai rhai yn ei chael yn anodd i feistroli technegau a chael eu hatal rhag parhau. Mae pren Balsa yn caniatáu i dechnegau gael eu meistroli'n hawdd ac yn arwain at drosglwyddiad llyfn i weithio gyda phren caletach. Mae'n feddal iawn ac yn hawdd i yrru morthwyl iddo, felly mae'r plant yn magu hyder yn gyflym ac mewn dim o dro byddant yn curo morthwyl ar ôl morthwyl. Mae hefyd yn berffaith ar gyfer dysgu sut i sgriwio a llifo. Yr anfantais gyda phren balsa yw ei fod yn ddrud felly mae'n well ei ddefnyddio'n gynnil a dim ond ar gyfer y camau rhagarweiniol wrth gaffael ar sgiliau sylfaenol. Yna, gofynnwch i'r plant symud yn syth ymlaen i "bren meddal" fel pinwydd.

Mae yna ddewisiadau eraill megis defnyddio pwmpenni, cardfwrdd haenog, bloc ewyn trwchus ac ati, ar gyfer datblygu sgiliau morthwylio, sgriwio a drilio, ond pren balsa yw'r mwyaf effeithiol, yn enwedig gan ei fod yn creu profiad dilys ac esthetig o weithio gyda phren go iawn ac felly yn ei gwneud yn haws i drosglwyddo sgiliau at brennau eraill.

Wrth i blant symud ymlaen i binwydd mae'r posibiliadau'n ehangu'n gyflym ac maent yn gallu creu gwaith mwy diddorol. Byddant yn sicr yn datblygu eu cyhyrau llaw a braich. Ar ôl cael profiad o weithio gyda choed balsa, mater o gymhwyso'r un technegau yw hwn, ond curo hoelion yn galetach neu ddrilio twll bach yn gyntaf wrth ddefnyddio sgriwiau. Mae pîn yn hawdd i'w gael - yn hawsach nag unrhyw bren arall. Nid ydym byth yn prynu pinwydd, ond yn dibynnu ar doriadau gan adeiladwyr, seiri a rhieni.

Dylid osgoi prennau caled - maent yn anodd eu morthwylio, eu llifo a'u drilio. Dylid hefyd osgoi pren sydd wedi'i drin yn gemegol. Mae llawer o ddarpariaethau yn defnyddio pren parod fel MDF a chaledfwrdd. Mae'r pren hwn yn rhad ac yn hawdd ei gael, ond mae'n creu llwch sy'n medru mynd i lygaid ac ysgyfaint plant pan gaiff ei dorri. Rydym yn darparu toriadau bach parod i blant eu defnyddio ond nid ydym yn caniatáu iddynt lifo'r pren hwn er mwyn eu hatal rhag anadlu unrhyw lwch.

Gall ffyn pren a changhennau fod yn ychwanegiad diddorol at yr adnoddau sydd ar gael. Mae'r rhain yn aml yn cael eu hymgorffori yn eu gwaith coed - mae canghennau bach yn troi'n olwynion, mae rhisgl wedi'i blicio yn troi'n llinyn, mae brigau wedi'u fforchio'n troi'n gerau!

Yn ogystal â hyn, darparwch ddetholiad eang o ddeunyddiau ychwanegol i ganiatáu mwy o bosibiliadau ac opsiynau i fynegi dychymyg. Mae'n arbennig o ddefnyddiol cael siapiau crwn, gan fod cymaint o ffyrdd i'w defnyddio. Gellir prynu pecynnau o olwynion MDF gan lawer o gyflenwyr adnoddau addysg blynyddoedd cynnar. Mae botymau, cyrc, gleiniau, topiau poteli ac ati, yn ychwanegiadau defnyddiol.

Y camau cyntaf

Dylid cyflwyno offer yn raddol i blant, un offeryn ar y tro. Mae angen i ni addysgu plant yn araf ac yn drylwyr am ddefnyddio offer yn ddiogel. Dechreuwch drwy gael trafodaeth am sut i ddefnyddio'r offer yn ddiogel, gan amlygu unrhyw beryglon posibl fel unrhyw ymylon miniog, a meddwl gyda'ch gilydd am sut i gadw'n ddiogel. I ddechrau, mae'r pwyslais ar ddod yn gyfarwydd â'r offer, caffael sgiliau ac ennill hyder.

Dechreuwch drwy ddefnyddio pren balsa gan ei fod yn feddal ac yn caniatáu i bob plentyn feistroli'r technegau sylfaenol heb drafferth. I ddechrau, rydym yn defnyddio'r morthwyl a'r hoelion, yn gyntaf trwy guro'r hoelion i'r pren ac yna trwy ddechrau uno darnau gyda'i gilydd. Yn fuan iawn ar ôl dysgu sut i ddefnyddio morthwyl, bydd y plant yn hyderus ac yn hapus i forthwylio hoelion i bren eto ac eto!

Yr ail offeryn i gyflwyno fyddai'r sgriwdreifer, unwaith eto yn cychwyn trwy droi sgriw i mewn i'r pren balsa, ac yna yn defnyddio'r sgriwiau i uno darnau o bren gyda'i gilydd. Mae'r ddau sgil sylfaenol hyn yn cynnig gwahanol ffyrdd o uno darnau o bren, a bydd hyn yn caniatáu i blant fod yn greadigol trwy wneud awyrennau, cerfluniau ac ati. Nesaf, rydw i'n cyflwyno'r llif Siapan y mae'r plant yn ei ddefnyddio i dorri darnau byr o bren balsa. Unwaith eto, mae hwn yn hawdd ac yn foddhaol iawn i'w defnyddio.

Ar ôl i'r plant gael ychydig o brofiadau o weithio gyda'r pren balsa gan ymarfer y technegau hyn, yna symudwn ymlaen at ddefnyddio pren meddal, fel pinwydd.

Yr offeryn nesaf i'w gyflwyno fyddai'r dril llaw, gan fod sgriwio i mewn i binwydd yn anodd heb ddrilio twll peilot. Gallwn hefyd gyflwyno'r G-clamp i ddal y gwaith yn gadarn wrth ei ddrilio.

I ddechrau, bydd plant yn chwarae ac yn arbrofi gan fagu hyder wrth iddynt gysylltu darnau o bren. Yna, yn gyffredinol maent yn symud ymlaen i greu rhywbeth penodol. Y peth pwysig yw gadael i'r plant reoli eu dysg eu hunain, felly gadewch iddynt wneud yr hyn y maent am ei wneud - fel hyn byddant yn creu eu

problemau eu hunain a bydd ganddynt y cymhelliant cynhenid i ddod o hyd i'w hatebion eu hunain. Y peth gwych am hyn yw bod pob gwaith yn unigryw ac mae plant yn creu mewn ffordd sy'n addas iddyn nhw eu hunain, boed hynny yn ailadroddus, yn chwareus, gwaith symbolaidd, modelau cynrychioliadol, gwaith haniaethol neu waith sy'n creu naratif esblygol.

Argymhellaf gyflwyno gwaith coed i blant yn eu blwyddyn cyn-ysgol. Yn yr oedran hwn byddant wedi datblygu'r aeddfedrwydd a'r cydlyniad corfforol er mwyn gallu gweithio'n llwyddiannus gydag offer sylfaenol. Mae eu cyfnod datblygiadol ar dair a phedair oed a thu hwnt yn berffaith addas ar gyfer y dysgu a'r datblygiad sy'n gysylltiedig â gwaith coed.

Offer

Mae fy argymhellion ar gyfer defnyddio offer wedi esblygu dros flynyddoedd lawer o weithio gyda phlant ifanc ac arsylwi ar yr hyn sy'n gweithio orau iddynt. Fy mlaenoriaeth erioed yw defnyddio offer sy'n hawdd ac yn ergonomig, yn ddiogel ac yn caniatáu i'r plant weithio mor annibynnol ã phosibl.

I ddechrau bydd angen pecyn offer sylfaenol arnoch: morthwylion, sgriwdreifer, dril llaw, llif, cwpwl o glampiau G a llawer o hoelion a sgriwiau! Rydym yn defnyddio hen fwrdd i weithio arno a mainc waith solet i ddal y pren sy'n cael ei lifio neu ei ddrilio. Gellir ychwanegu at y pecyn dros amser wrth i sgiliau'r plant gynyddu.

Mae cael yr offer cywir yn gwneud gwahaniaeth enfawr. Er enghraifft, mae morthwyl ã charn fer gyda phen mawr, gafael da a phwysau rhesymol yn ardderchog i blant; tra bod morthwyl pen pin hir yn anodd ei ddefnyddio ac yn creu rhwystredigaeth. Mae llifiau sy'n torri ar y strôc tynnu yn llawer haws i blant eu defnyddio. Mae'r rhan fwyaf o'r offer yn safonol, ond mae rhai eitemau penodol yr wyf yn argymell yn gryf:

• Mae Morthwyl Ball Pein 8oz byrdew ('stubby 8oz ball pein) yn addas iawn i blant ifanc.

• Dril llaw gafael 'pistol draper' a darnau dril byr (3mm o ddiamedr). Mae'r dril hwn yn gyfforddus i blant ifanc ei reoli ac mae'r mecanwaith wedi'i amgáu.

• Sgriwdreifar 'posidriv' byrdew.

• Mae llif dozuki Japaneaidd yn ddelfrydol gan ei fod yn hawdd iawn i blant ei ddefnyddio, gan dorri ar y strôc tynnu. Llafn brand 'Ice Bear' gyda llafn 160mm. Mae gan rai llifiau Siapan ddannedd ar y ddwy ochr felly gwell osgoi rhain. Yn ogystal, rwy'n awgrymu llif tynnu mwy ar gyfer torri darnau trwchus.

• Awgrymaf ddefnyddio sbectol diogelwch bach yn hytrach na gogls.

Gweler yr adran adnoddau am fwy o fanylion.

Cit offer sylfaenol:

- Mainc waith gyda feis
- Sbectol diogelwch iau
- Morthwyl pêl-pein byrdew
- Morthwyl crafanc byrdew
- Screwdreifar 'pozidriv'
- Dril llaw
- Llif Japaneaidd
- Llif tynnu mwy
- Clampiau-G
- Bradawl
- Pren mesur, tâp mesyr, sgwaryn
- Nwyddau traul:
- Papur tywod
- Hoelion
- Sgriwiau
- Darnau drilio

Sbectol Diogelwch

Dylid gwisgo sbectol diogelwch bob amser. Gyda morthwylio mae yna risg fach y gallai rhywbeth chwalu neu gallai morthwyl adlamu tuag at y llygad. Caiff y risg hon ei dileu trwy wisgo sbectol diogelwch. Mae hefyd yn bwysig i blant ddysgu sut i ofalu am eu cyrff a chymryd cyfrifoldeb drwy wisgo offer diogelwch priodol.

Morthwyl

Yr offeryn cyntaf i'w gyflwyno yw'r morthwyl. Defnyddiwch forthwyl pêl-pein byr. Mae morthwyl Ball Pein 8oz byrdew yn addas iawn i blant ifanc. Dyma'r pwysau delfrydol, mae ganddo afael dda a handlen fer sy'n caniatáu rheolaeth dda.

Dechreuaf drwy ddangos sut i ddal y morthwyl ar ganol yr handlen a dangos pa ran o'r morthwyl (yr wyneb) sydd i daro'r hoelen. Rydw i'n pwysleisio pwysigrwydd o edrych ar ble rydych chi am daro drwy'r amser, a pheidio â thynnu sylw eraill tra'u bod yn morthwylio. Rydym yn siarad am sut y gallai deimlo pe baem yn taro ein bys, a'r pwysigrwydd o beidio â throi neu chwifio'r morthwyl mewn modd a allai niweidio rhywun arall, yn enwedig os oes bobl y tu ôl i chi. Yna, dangosaf sut i ddal yr hoelen gyda bys a bawd, gan sicrhau ei fod yn fertigol, a sut i roi tapiau fertigol ysgafn wrth dal yr hoelen yn unionsyth. Gyda'r tapiau ysgafn hyn, hyd yn oed os ydy'r plant yn methu eu nod ac yn taro'u bawd neu fys, ni chaent eu brifo'n ormodol.

Unwaith y bydd yr hoelen yn sefyll ar ei phen ei hun, bydd y plant wedyn yn symud eu llaw ac yn dal y pren yn gadarn ymhell o'r hoelen. Yna gallant forthwylio gyda mwy o egni, gan guro dro ar ôl tro nes bod yr hoelen yn sownd yn y pren. Mae'n ddefnyddiol pwysleisio bod angen taro'r hoelen yn uniongyrchol ar ei phen yn hytrach na'i tharo ar ongl a fyddai'n peri i'r hoelen blygu. Mae plant ifanc yn ddigon abl i ddal yr hoelen yn unionsyth ac i dapio nes ei bod yn sefyll ar ei phen ei hun yn y pren. Ar ôl cyfnod byr byddant yn medru morthwylio hoelion i'r pren heb gymorth.

Pan fydd plant yn morthwylio hoelion mwy byddant yn defnyddio llawer mwy o rym. Mae'n dod yn bwysicach fyth bod y llaw sy'n dal y pren ymhell o'r hoelen, rhag brifo bysedd.

Sgriwdreifer a dril

Yr ail offeryn rydw i'n ei gyflwyno yw'r sgriwdreifer, sy'n rhoi ffordd arall i blant uno darnau o bren. Mae sgriwdreifers pen-croes byr yn hawdd i blant eu rheoli. Dangoswch sut i droi'r sgriwdreifer gyda symudiad at i lawr, a gofynnwch i'r plant arbrofi gan ei droi i'r ddau gyfeiriad i weld sut mae'r sgriw yn mynd i mewn i'r pren a sut y gellir ei thynnu oddi yna. Wrth ddechrau sgriwio, yn gyntaf gwnewch indeintiad bach yn y pren balsa gyda phwynt miniog fel pensil neu hoelen fawr, ac yna trowch y sgriw i mewn gyda bys a bawd nes ei bod yn sefyll yn unionsyth. Mae sgriwio i bren balsa yn hawdd. Gyda phren meddal fel pinwydd, mae angen drilio twll bach yn gyntaf.

Argymhellaf y dril 'Draper pistol grip', gan fod y mecanwaith wedi'i amgáu. Cyfarwyddwch y plant i droi i'r cyfeiriad cywir; a'u dysgu i gadw'r dril yn syth fel ni fydd y darnau dril yn torri. Mae plant hefyd yn hoffi defnyddio'r hen ddriliau 'brace and bit'. Maent yn troi yn hawdd, ac yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer drilio tyllau mwy.

Llif

Mae llawer o ymarferwyr yn bryderus wrth feddwl am eu plant yn defnyddio llif ond mae'n ychwanegiad pwysig at becyn offer, ac un sy'n caniatáu i'r plant gael mwy o reolaeth dros eu dyluniadau a'u creadigaethau trwy allu torri pren i'r maint sydd ei angen arnynt.

Mae cael y llifiau cywir yn gwneud gwahaniaeth enfawr. Rydym wir eisiau i lifio fod mor hawdd â phosibl, i beidio â digalonni unrhyw blant. Dylai'r pecyn offer gynnwys dwy lif:

1. Llif tynnu 'dozuki' Siapaneaidd fach.

2. Llif tynnu mwy ar gyfer torri trwy bren trwchus

Ym mhob achos mae'n hanfodol bod y pren sy'n cael ei dorri yn cael ei ddal yn gadarn mewn feis ac mae'n bwysig bod y fainc yn gadarn. Dylid torri'r pren yn agos at y fainc waith fel bod y pren yn cael ei ddal mewn modd sy'n osgoi dirgryniadau. Wrth gyflwyno'r llif, dangoswch i'r plant pa mor finiog yw'r llif, caniatewch iddyn nhw deimlo bod y dannedd yn finiog i bwysleisio'r angen am ofal.

Wrth lifio, mae angen goruchwyliaeth un i un ar y plentyn bob amser. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y pren wedi'i glapio'n dynn yn y feis ac i sicrhau bod y plentyn yn defnyddio'r llif yn gywir, gan eu cefnogi os oes angen. Ond yn bwysicaf oll, mae'n sicrhau nad yw plant eraill yn pasio o flaen y llif nac yn ceisio gwylio o'r tu blaen. Mae hwn yn faes risg sylweddol pe bai plentyn yn symud o flaen y llif, felly mae angen i ni fod yn wyliadwrus. Mae'r risg hon yn cael ei dileu gan yr ymarferydd yn gosod ei hun yn uniongyrchol o flaen y llif, gan gadw'r ardal yn glir. Mae plant wrth eu bodd yn gwylio - ond gwnewch yn siŵr eu bod yn sefyll yn ôl wrth wneud. Gallai hefyd fod yn opsiwn i osod y fainc waith fel bod y llif yn ymwthio allan at wal heb unrhyw botensial i blant gael mynediad i'r ardal beryglus. Ar ôl llifio dylid cadw'r llif rhywle diogel - rydym yn ei gadw'n weladwy ond ar lefel uchel.

Mae tynnu llifiau yn haws eu rheoli ac yn haws i blant eu defnyddio. Mae'r llafnau llif Siapaneaidd yn denau ac mae ganddynt ddannedd mân iawn, ac o ganlyniad mae plant yn ei chael hi'n hawdd iawn eu defnyddio. Mae llif denau yn golygu ei fod yn cymryd llai o ymdrech i dorri'r pren (gan fod llai o bren yn cael ei lifio.) Mae'n cael ei dal gyda dwy law, sy'n helpu'r plant i dorri llinell syth, yn syth i'r pren. Mae yna fantais ychwanegol bod y ddwy law sy'n dal yr handlen ac felly'n glir o'r man torri.

Mae angen goruchwyliaeth un-i-un pan fydd plentyn yn llifio i sicrhau bod y plentyn yn defnyddio'r llif yn gywir, ac yn arbennig i atal plant eraill rhag pasio o flaen y llif neu'n ceisio gwylio o'r tu blaen.

Iechyd a Diogelwch

(gweler yr adnoddau ar gyfer dolen i'r canllaw llawn)

- Sbectol diogelwch - cofiwch wisgo sbectol diogelwch bob amser i ddiogelu'r llygaid. Mae'n bwysig i'r plant ddysgu am ddiwylliant diogelwch a sut i ofalu am eu hunain. Mae plant yn llawer mwy cyfforddus mewn sbectol diogelwch yn hytrach na gogls trwchus.

- Sicrhewch fod pob plentyn yn cael cyfarwyddyd priodol ar y defnydd cywir o'r holl offer. Cymerwch amser i dynnu sylw at beryglon.

- Cymarebau cychwynnol ar gyfer cyflwyno offer yn ddiogel - plant cyn-ysgol 1: 3, plant Derbyn 1: 4, plant CA1 1: 8

- I ddechrau, dylid goruchwylio plant yn ofalus. Pan fydd plant yn hyderus wrth ddefnyddio offer, gellir llacio cymarebau offer, ond dylai aelod o staff gadw golwg craff ar yr ardal gwaith coed.

- Cyfyngwch ar nifer y plant wrth y fainc waith fel nad ydynt yn gweithio'n rhy agos i'w gilydd. Lleolwch fainc waith mewn man a diogelir i leihau traffig ac osgoi tynnu sylw'r plant oddi ar eu gwaith.

- Llifio - cadwch at gymhareb 1: 1. Sicrhewch nad oes unrhyw blant yn gwylio o flaen yr ardal llifio - dylai ymarferydd sefyll yn yr ardal hon i atal plant rhag dod yn agos i'r llif. Dylai plant sy'n llifo gyda llif Siapaneaidd dal y llif gyda dwy law. Ar ôl defnyddio'r llif dylid ei chadw allan o afael y plant. Dylai pren bob amser cael ei glampio mewn feis wrth lifio. Staff i sicrhau bod y feis yn dal y pren yn dynn.

- Wrth gario offer offer daliwch wrth eich ochr. Peidiwch byth â rhedeg gydag offer.

- Byddwch yn ofalus rhag i blant ddal eu bysedd wrth ddefnyddio feisiau, clampiau a gefeilion.

Sicrhewch fod bysedd yn cael eu cadw'n glir o'r ardal clampio. Caewch feisiau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.

- Os ydi hoelion yn ymwthio allan o'r pren dylid eu tynnu neu eu gwneud yn ddiogel cyn i blant fynd â gwaith adref.

- Osgowch ddefnyddio pren caled. Maent yn rhy anodd i blant ifanc weithio gyda nhw ac mae posibilrwydd y gallai hoelion adlamu. Mae pren haenog hefyd yn dueddol o dorri'n fflawiau.

- Osgowch bren wedi'i drin â chadwolion.

- Byddwch yn ofalus gyda MDF. Dylai plant osgoi torri MDF oherwydd mae'n creu gormod o lwch niweidiol.

- Gwiriwch y pren ar gyfer fflawiau. Ceisiwch osgoi pren garw llawn fflawiau. Os yw'r pren yn arw defnyddiwch bapur tywydd ar yr ymylon. Rhybudd: Gall fflawiau achosi gwenwyniad gwaed.

Hyfforddiant staff

Ychydig o brofiad personol sydd gan lawer o ymarferwyr o offer, a gallant fod yn ddihyder wrth gyflwyno gwaith coed i blant ifanc. Mae'n ddealladwy bod angen i staff ennill hyder wrth weithio gydag offer, a gellir datrys hyn yn hawdd gyda hyfforddiant sylfaenol i staff. Yn sicr nid oes angen cael arbenigwr i ddod i'r ddarpariaeth; gall pob ymarferydd ddod yn fwy na galluog a hyderus i gyflwyno gwaith coed a monitro sesiynau gyda rhywfaint o hyfforddiant sylfaenol.

Mae hyfforddiant gwaith coed yn cynnwys:

- Y ddamcaniaeth - hanes gwaith coed a'r ddysg a'r datblygiad cysylltiedig
- Deall materion risg ac iechyd a diogelwch
- Dysgu am yr holl offer angenrheidiol
- Profiad ymarferol.

Mae'r sesiynau ymarferol yn arbennig o ddefnyddiol, gan roi cyfle i ymarferwyr ddod yn wirioneddol hyderus a chyfarwydd â'r offer a'u defnydd diogel. Mae'r profiad o fod yn greadigol gyda phren yn dangos staff yr holl bosibiliadau ar gyfer datrys problemau ac yn rhoi cipolwg ar sut brofiad mae gwaith coed i blant.

Er mwyn gwneud y defnydd gorau o waith coed o fewn eich darpariaeth, mae'n well o lawer i'r holl staff feddu ar lefel o gymhwysedd a hyder na dibynnu ar un neu ddau o ymarferwyr, felly argymhellir darparu hyfforddiant ar gyfer y tîm cyfan. Mae hefyd yn dda ymweld â darpariaeth sydd eisoes yn gwneud gwaith coed. Mae gweld plant sy'n ymwneud â'u gwaith coed yn ysbrydoledig ac yn galonogol.

Prosiectau

Gall prosiectau fod yn ffordd wych o ymestyn dysgu. Maent yn annog ymchwiliad manylach, yn adeiladu ar ddatblygiad medrau ac yn cyfuno gwahanol feysydd dysgu. Mae plant yn darganfod defnydd ymarferol ar gyfer amryw offer a thechnegau.

Gall prosiectau estynedig bara sawl sesiwn, wythnos neu fisoedd hyd yn oed, ac maent yn gydweithredol, gyda grŵp o blant yn gweithio gyda'i gilydd. Maent yn darparu cyfle gwych i blant ddysgu oddi wrth ei gilydd. Maent yn ennill profiad o weld sut mae eraill yn meddwl, gan ehangu eu sgiliau meddwl creadigol a beirniadol. Maent yn adeiladu ar syniadau ei gilydd wrth iddynt fireinio dyluniadau a gweithio gyda'i gilydd i ddatrys problemau.

Dros y blynyddoedd mae nifer fawr o bobl wedi argymell dysg drwy brosiectau. Mae dull Reggio Emilia wedi croesawu dysg drwy brosiectau ers blynyddoedd lawer ac mae Chard a Katz yn arbennig wedi hyrwyddo dull y prosiect. Trwy brosiectau mae plant yn caffael gwybodaeth ddyfnach, trwy archwilio cwestiynau a thrwy ateb heriau byd go iawn.

Yn ddelfrydol, bydd syniadau ar gyfer prosiectau estynedig yn deillio o ddiddordebau plant, o holi cwestiynau allweddol, o ganfod problem i'w datrys, neu'r angen i atgyweirio neu ychwanegu rhywbeth yn y ddarpariaeth. Mewn un prosiect penderfynodd plant gwneud bwgan brain i gadw'r adar i ffwrdd o hadau a blannwyd wrth arddio. Daeth hwn yn brosiect a barhaodd dros nifer o wythnosau wrth i blant ddatblygu eu syniadau, casglu deunyddiau ac aethant ati i greu eu bwgan brain. Enghraifft arall oedd trwsio mainc gardd a oedd wedi ei thorri, wedi llawer o drafodaeth a chynllunio cychwynnol.

Mae enghreifftiau eraill wedi esblygu o ymgynghori â phlant ynghylch pa ychwanegiadau yr hoffent eu cael ar gyfer eu hamgylchedd awyr agored. O'r trafodaethau hyn daeth yn amlwg bod y plant am greu tŷ bach twt, cegin fwd a gardd sŵn. Yn amlwg gyda'r prosiectau hyn cafodd yr oedolion cryn fewnbwn, ond

cafodd y plant fewnbwn trwy gydol y broses cynllunio a chreu, gan sicrhau bod gan y plant lais a'u bod yn perchenogi'r prosiect.

Mae creu cerfluniau pren wastad yn brosiect mae plant yn eu mwynhau, ac mae'n gyfle gwych i ehangu sgiliau gwaith coed. Mae cerflunio, fel mathau eraill o gelf, yn rhoi cyfle i blant fynegi eu hunain yn greadigol wrth iddynt gynrychioli meddyliau, profiadau a theimladau ar ffurf ffisegol. Gall fod yn ddiddorol i gyfuno gwahanol ddeunyddiau, gan ychwanegu darnau o blastig wedi eu drilio, darnau o bibellau ac ati er mwyn creu cerflun cyfrwng cymysg. Maent yn datblygu ymwybyddiaeth ofodol wrth greu ffurfiau tri-dimensiwn, ac yn gwneud defnydd digymell o syniadau a geir o feysydd dysgu eraill.

Dadadeiladu

Ymarferiad darganfod yw dadadeiladu. Mae'r plant yn mwynhau defnyddio eu sgiliau gydag offer i ddadeiladu eitemau. Maent yn chwilfrydig i ddarganfod beth sydd y tu ôl i'r gorchudd, ac i ymchwilio i sut mae pethau'n gweithio. Maent yn canolbwyntio'n astud ar y rôl dditectif hon a gall yr ymchwil ehangu ar eu dysgu.

Mae dadadeiladu yn dyfnhau dealltwriaeth plant o sut mae pethau'n cael eu creu. Wrth iddynt dorri offer yn rhannau, gallant ymchwilio i bob cydran a byddant yn darganfod sut y cawsant eu cydosod, gan ddod yn wybodus am sut mae pethau'n cael eu cynhyrchu. Byddant yn darganfod sut mae elfennau'n rhyngweithio a gallant arsylwi ar gymhlethdod cyfarpar.

Mae dadadeiladu yn annog plant i arafu ac arsylwi, i edrych heibio'r arwyneb ac i fod yn chwilfrydig. Mae arsylwi agos a gofalus yn hanfodol, ac i wneud hyn mae angen amser arnom i sylwi ar y manylion a'r dyluniad. Bydd arsylwi meddylgar yn sbarduno ymchwiliadau, ac efallai yn arwain at ymholiadau newydd. Efallai y bydd plant yn cael eu swyno gan y ffaith bod seinydd yn fagnetig ac yna'n mynd ymlaen i archwilio magnetedd; efallai byddant yn chwilfrydig am y gwifrau lliw ac yn mynd ymlaen i ymchwilio ymhellach trwy wneud cylched syml. Gall gweld cogs ar waith ennyn diddordeb plant a'u hannog i archwilio symudiad cylchdro.

Casglwch bethau fel hen feiciau, pramiau, cloriannau ac ati. Mae yna gyngor gwrthgyferbyniol ynglŷn â chyswllt posibl ag elfennau gwenwynig wrth ddadadeiladu offer electronig, felly argymhellaf osgoi byrddau cylched printiedig a bod yn ofalus ynghylch pa ddeunyddiau eraill y gellir fod yn yr offer. Os oes unrhyw amheuaeth, mae'n well osgoi offer trydanol a chadw at wrthrychau mecanyddol. Bydd angen amrywiaeth o ddarnau sgriwdreifer arnoch, gan y bydd yr offer yn cynnwys pob math o sgriwiau o wahanol feintiau.

Mae plant yn aml yn defnyddio'r rhannau wedi'u dadadeiladu i adeiladu pethau newydd! Rydw i wedi gweld y malurion yn troi'n robotiaid, cerfluniau neu ddarn crog, yn aml wedi'u cyfuno â phren.

Casgliad

Rydym wedi gweld sut mae gweithio gydag offer go iawn yn cynnig profiadau newydd i blant ac yn cwmpasu pob maes dysgu a datblygu.

Mae gwaith coed yn caniatáu i blant ddod yn arloeswyr, gwneuthurwyr, cerflunwyr, peirianwyr a phenseiri yfory. Mae'r profiad o weithio gyda phren yn cael effaith ddofn ar blant ac erys yn eu cof. Ar ôl dysgu sut i weithio gydag offer mae'n dod yn rhan o DNA plant.

Mae'n cymryd peth ymdrech i ddechrau ar waith coed - i ddod o hyd i'r offer a'r pren, sicrhau bod staff yn teimlo'n hyderus a bod gennych chi gymarebau digonol i'w cyflwyno a'i fonitro'n iawn - ond mae'n werth y buddsoddiad. Unwaith y bydd popeth yn ei le, ni fyddwch yn difaru cychwyn a bydd lefelau ymgysylltiad a dyfnder archwiliadau'r plant yn eich synnu.

Byddai'n wych pe bai pob plentyn yn medru elwa ar y profiadau hyn. Fel ymarferydd, mae'n bleser gweld plant yn canolbwyntio'n astud ar weithgaredd, i weld eu hyder cynyddol, eu dyfalbarhad gyda her a'u gwytnwch yn wyneb methiannau. Mae'n bleser gwylio eu creadigrwydd, arsylwi ar eu datrys problemau a gweld eu balchder wrth iddynt gyflawni - mae bob amser yn fy nghalonogi.

Wrth i blant greu gyda phren maen nhw'n dysgu sgiliau a fydd yn eu grymuso i siapio eu byd. Gadewch i ni roi'r cyfle gwerthfawr hwn i bob plentyn.

Adnoddau



Iechyd a Diogelwch

Rhestr wirio iechyd a diogelwch

Asesiad risg enghreifftiol

https://irresistible-learning.co.uk/resources/

Darllen Pellach

- **Learning through woodwork: Introducing creative woodwork in the early years**
  Cyhoeddwr: Routledge 2018
  Pete Moorhouse
- **Maker-Centered Learning: Empowering Young People to Shape Their Worlds**
  Cyhoeddwr: Jossey Bass 2016
  Edward P. Clapp
- **Making Makers: Kids, Tools, and the Future of Innovation**
  Cyhoeddwr: Maker Media, 2014
  Dr. Ann Marie Thomas
- **Creativity: Flow and the Psychology of Discovery and Invention**
  Cyhoeddwr: Harper Perennial; 1996
  Mihaly Csikszentmihalyi

Safleoedd we:

Early Childhood Woodwork Association:
https://earlychildhoodwoodwork.org

Gwybodaeth ar Risg:

http://www.playwales.org.uk

Adnoddau

Mae ystod eang o adnoddau i gefnogi gwaith coed, er enghraifft rhestr o lyfrau i blant, 'top tips' ac ati, ar gael gan:

https://irresistible-learning.co.uk/resources/

Cyflenwyr:

Mainc waith:
www.communityplaythings.co.uk

Offer:

www.cosydirect.com

www.muddyfaces.co.uk

Pren balsa:

https://balsacabin.co.uk/
www.fredaldous.co.uk
www.cosydirect.com

Pete Moorhouse

Mae Pete yn ymgynghorydd creadigol y blynyddoedd cynnar gyda dros 25 mlynedd o brofiad o weithio mewn ysgolion, ac ar hyn o bryd mae'n addysgwr atristig yn Ysgol Feithrin St Werburgh's Park ym Mryste. Mae ei waith wedi'i ysbrydoli gan ei ymweliadau ac astudiaeth fanwl o ddull Reggio Emilia ac egwyddorion Froebelian. Mae Pete yn awdur nifer o lyfrau gan gynnwys, "Learning through woodwork: Introducing creative woodwork in the early years "(Routledge 2018) ac wedi cyhoeddi nifer o erthyglau cyfnodolion yn y wasg addysgol.

Mae Pete yn Gymrawd Ymchwil er Anrhydedd ym Mhrifysgol Bryste, yn ymchwilio i feddwl creadigol a beirniadol, ac mae'n Gymrawd Churchill. Pete yw'r awdurdod arweiniol ar waith coed mewn addysg blynyddoedd cynnar ac mae'n gadeirydd y Gymdeithas Gwaith Coed Plentyndod Cynnar ac mae'n cydlynu The Big Bang Project - gan annog ymarfer gwaith coed ledled y byd.

Mae Pete yn hyfforddwr cyswllt ar gyfer Addysg Gynnar ac yn darparu hyfforddiant DPP, gweithdai a chyflwyniadau cynadleddau ledled Cymru.

Am arweiniad cynhwysfawr i ymarferwyr ar gyflwyno gwaith coed:
Learning through Woodwork: Introducing Creative Woodwork in the Early Years
Pete Moorhouse (Routledge 2018)



Cysylltwch â Pete am ei hyfforddiant DPP / ESTYN:
https://irresistible-learning.co.uk
studio@petemoorhouse.co.uk

Cynigir yr holl wybodaeth a chanllawiau gyda'r bwriad gorau ar gyfer canlyniadau cadarnhaol ar gyfer dysgu a datblygiad plant ifanc. Mae'n bwysig bod gwaith coed yn cael ei gyflwyno gyda'r cyfarwyddyd cywir a'i fod yn cael ei fonitro'n agos a bod y canllawiau diogelwch yn cael eu dilyn yn llym. Ni all yr awdur neu Community Playthings gymryd unrhyw gyfrifoldeb cyfreithiol am unrhyw ddamweiniau, anafiadau neu erlyniadau o unrhyw fath. Eich cyfrifoldeb chi yw cyflwyno gwaith coed yn briodol i'ch lleoliad penodol chi ac ymateb yn unol â hynny i'r plant unigol sy'n cymryd rhan. Bwriedir i'r canllawiau yn y llyfr gael eu cefnogi gan hyfforddiant, gan gynnwys profiad ymarferol o weithio gydag offer.

mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar
Welsh early years specialists

academi
datblygu • hyfforddi • meithrin

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Irresistible Learning

Cyfieithwyd y llyfryn hwn gan Mudiad Meithrin fel adnodd i gyd fynd â chyfres o weithdai a gynhaliwyd ym mis Medi 2019.